**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Rhagfyr 2014 yn Siambr Cyngor Sir y Fflint, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

PRESENNOL

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd ) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

Hefyd yn bresennol:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Millington | Rheolwr Maes |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 22 MEDI A 2 RHAGFYR 2014

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 22 Medi 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 Cafodd cofnodion cyfarfod arbennig yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y ddau gyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Roedd y materion canlynol yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2014.

3.2 13.3 – Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol – roedd y DBST wedi cysylltu ag ysgrifennydd Undeb yr FBU, ac roedd ef wedi cadarnhau nad oedd gan yr Undeb unrhyw sylwadau i'w hychwanegu i ymateb yr Awdurdod i'r papur gwyn.

3.3 14.4 (ii) Costau'r Gweithredu Diwydiannol – cadarnhaodd y Clerc ei fod yn mynd i gyfarfod â'r DBST i ddatrys rhai materion cyn anfon llythyr i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r costau'n gysylltiedig â hyfforddiant y cymorth milwrol. Darperir diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

3.4 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Medi a Rhagfyr 2014 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Dydd Gwener 12 Rhagfyr 2014, roedd y Cadeirydd wedi mynd i Seremoni Raddio dau aelod o'r staff a oedd wedi cwblhau'r cwrs Arweinyddiaeth Weithredol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ymuno ag ef i longyfarch G Brandrick, yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân ac S Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol ar eu llwyddiant.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYLLIDEB DDRAFFT 2015-16

6.1 Cafodd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 ei chyflwyno i'r Aelodau i'w chymeradwyo. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16, y rhagolygon ar gyfer 2016-17 a 2017-18, y cyfraniadau amcanol sydd eu hangen oddi wrth yr awdurdodau cyfansoddol a'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

6.2 Aeth y Trysorydd â'r aelodau drwy'r adroddiad a'r atodiadau. Gofynnodd i'r aelodau nodi sefyllfa bresennol yr Awdurdod o ran y cronfeydd wrth gefn. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai dim ond £20k o'r £406k mewn cronfeydd a gaiff ei ddefnyddio yn 2014-15 i danategu'r gyllideb ond petai cynnydd yn y gweithgarwch cyn diwedd mis Mawrth 2015 gallai hyn newid. Ailadroddodd y Trysorydd ei gyngor y dylid bod yn hynod ofalus wrth ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb oherwydd mai'r effaith yw cael y swm hwnnw o gynnydd yn y pwysau ar y gyllideb yn y flwyddyn ddilynol.

6.3 Roedd y Cyng. Shotton yn cydnabod y gwaith caled a fu er mwyn llunio'r gyllideb. Cynigiodd fod yr Awdurdod yn gosod cyllideb wedi ei rhewi, gyda chyfraniadau o'r cronfeydd wrth gefn ynghyd â'r arbedion y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod arbennig. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Dunbar.

6.4 Cyflwynodd y Dirprwy Gadeirydd, y Cyng. Lewis, welliant i gynnig y Cyng. Shotton. Gan gydnabod sefyllfa'r awdurdodau lleol a'r pwysau ariannol yn gyffredinol, roedd y Cyng. Lewis o'r farn y bydd yr Awdurdod yn wynebu sefyllfa debyg ymhen 12 mis ac y bydd parhad yn y cyfyngiadau ar gyllidebau awdurdodau lleol am flynyddoedd i ddod. Cynnig y Cyng. Lewis oedd gostwng lefel y cronfeydd wrth gefn i 5% o'r gyllideb refeniw flynyddol. Byddai hynny'n rhyddhau tua £223k i'w ddefnyddio i danategu'r gyllideb ar gyfer 2015-16. Byddai hynny wedyn yn gadael £114k yn ychwanegol i'w godi ar awdurdodau lleol, yn hytrach na £337k , sef yr opsiwn cyntaf yn atodiad B. Felly byddai'r cynnydd yn cyfateb i 16 ceiniog y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

6.5 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd bod y ffigyrau poblogaeth yn rhai sydd yn y llyfr gwyrdd Llywodraeth Leol, sef yr hyn a ddefnyddir fel sail i ddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw a setliadau ariannol eraill ar gyfer Awdurdodau Lleol. Holodd aelod arall a ellid ystyried y gostyngiad mewn costau tanwydd wrth ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond cadarnhawyd ei bod yn bosibl na fydd y gostyngiad yn beth tymor hir ac mai gwell yw cynyddu'r gyllideb £3k ar gyfer 2015-16 ac ailystyried y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn ddilynol os bydd y gostyngiad yn y pris yn dal yn ei le.

6.6 Eiliodd y Cyng. Wright gynnig y Cyng. Lewis, a theimlai y byddai 16 ceiniog yn dderbyniol i'r awdurdodau cyfansoddol a hefyd yn rhoi rhagor o amser i'r Awdurdod ystyried arbedion yn y dyfodol. Teimlai'r Cyng. Skelland y dylai'r Awdurdod fod yn adolygu lleoliadau gorsafoedd ledled y gogledd er mwyn gwneud arbedion yn y dyfodol. Cadarnhaodd y PST y bydd Gweithgor y Cynllun Gwella yn cael dadansoddiad cynhwysfawr o ofal tân yng Ngogledd Cymru ac yna bydd efallai yn ystyried ac yn adolygu lleoliadau gorsafoedd.

6.7 Yn dilyn pleidlais, roedd 16 aelod o blaid derbyn y cynnig fel y'i cyflwynwyd gan y Cyng. Lewis. Ataliodd y Cyng. Shotton, Dunbar a Reece eu pleidlais. Roedd hyn yn gysylltiedig ag **argymhelliad (ii) o'r adroddiad, a dyma'r manylion terfynol y cytunwyd arnynt:**

**(ii) y strategaeth i'w dilyn er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig ar gyfer 2015- 16:-**

- **gosod y Gyllideb ar £31,885,843**
- **mae hyn yn cynnwys £291,000 o arbedion a chyfraniad o £223,357 o'r cronfeydd wrth gefn**
- **y cynnydd i'w ddiwallu gan yr awdurdodau cyfansoddol yw £113,832**
- **dyma'r ffigyrau diwygiedig a gymeradwywyd dan Atodiad B:**

| Awdurdod | Cyfraniad 2014/2015 £ | Amcangyfrifon Poblogaeth 2015 | Cyfraniad arfaethedig 2015/2016 £ | Newid Gwirioneddol £ | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 5,283,704 | 115,909 | 5,289,891 | 6,188 | 0.12% |
| **Ynys Môn** | 3,198,669 | 70,128 | 3,200,523 | 1,854 | 0.06% |
| **Gwynedd** | 5,588,255 | 122,765 | 5,602,787 | 14,532 | 0.26% |
| **Sir Ddinbych** | 4,342,155 | 95,550 | 4,360,740 | 18,585 | 0.43% |
| **Sir y Fflint** | 7,018,721 | 154,115 | 7,033,548 | 14,827 | 0.21% |
| **Wrecsam** | 6,340,507 | 140,197 | 6,398,354 | 57,847 | 0.91% |
| **CYFANSWM** | **31,772,011** | **698,664** | **31,885,843** | **113,832** | **0** |

6.8 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16;**
**(iii) nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2016-17 a 2017-18;**
**(iv) rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth yw'r cyfraniadau amcanol sydd eu hangen ar gyfer 2015-16 ar sail (ii) uchod;**
**(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu ar gyfer 2015-16;**
**(vi) os daw unrhyw arbedion i'r amlwg cyn 15 Chwefror, cytuno bod y pwerau ar gyfer addasu lefel y gyllideb yn cael eu dirprwyo i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.**

Ar yr adeg hon gadawodd y PST y cyfarfod.

7 ALLDRO AMCANOL 2014-15

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir am flwyddyn ariannol 2014-15.

7.2 Roedd yr adroddiad yn dweud y byddai gan yr Awdurdod oddeutu £311k o danwariant. Fodd bynnag, dywedodd y Trysorydd bod yr arwyddion diweddaraf yn dangos y byddai tanwariant uwch o bosibl ac y gofynnid i'r Aelodau ei gymeradwyo ar gyfer defnydd cyfalaf, a thrwy hynny leihau unrhyw gynnydd yn y gyllideb refeniw yn y blynyddoedd i ddod.

7.3 Nodwyd bod aelodau'r Panel Gweithredol wedi cael gwybod yn eu cyfarfod diwethaf am y risgiau posibl a'r costau yn gysylltiedig â'r contract cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau radio. Roedd y risgiau'n cynnwys peidio â chwrdd â'r amserlenni ar gyfer trosglwyddo a'r posibilrwydd na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ran-ariannu'r system pan ddaw'r contract presennol i ben yn Rhagfyr 2016. Felly, argymhellodd yr Aelodau neilltuo £300k o'r tanwariant i ymorol am y costau ychwanegol a ddaw wrth drosglwyddo o un contract cysylltiadau i'r llall. Teimla'r Cyng. McGuill na ddylid cosbi'r Awdurdod am orfod ail-negodi estyniadau i gontractau oherwydd oedi'r llywodraeth ganol wrth gyflwyno contract newydd. Cadarnhaodd y DBST fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r mater ond mai doeth fyddai i'r Awdurdod gael arian wedi ei neilltuo rhag ofn na ellir datrys y mater mewn ffordd arall.

7.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig o £311k; a**

**(ii) cytuno i neilltuo £300k o'r tanwariant hwn i ymorol am unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â newid darparwr radio.**

8 LLYWODRAETHU'R BWRDD CYMUNEDAU DIOGELACH

8.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Diogelach. Cytunwyd y byddai'r bwrdd yn cael cyfansoddiad ffurfiol fel pwyllgor cynghori. Roedd yr adroddiad yn nodi'r tasgau y bydd y Bwrdd yn eu cyflawni, yn ogystal â blaenraglen waith y Bwrdd.

8.2 Esboniodd y Clerc fod G Brandrick, yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân, yn cynrychioli GTAGC ar y Bwrdd a bod cyfle i'r Awdurdod hefyd gael gynrychiolaeth ar y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd yr aelodau o'r farn nad oedd angen hynny. Hefyd, mynegodd rhai aelodau bryderon nad oedd sôn am unrhyw ganlyniadau yn y blaenraglen waith, ond cadarnhawyd y bydd gan y Bwrdd fframwaith monitro cadarn yn ei le.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r blaenraglen waith fel y'u cyflwynwyd.**

9 PENODI I GYRFF ALLANOL

9.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau:

(i) penodi un o aelodau'r Awdurdod i Fwrdd Prosiect Canolfan Adnoddau'r Gwasanaethau Ambiwlans a Thân;

(ii) cadarnhau penodi aelod ychwanegol i'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

9.2 **PENDERFYNWYD rhoi cefnogaeth i benodi:**

**(i) Y Cyng. G Lowe i Fwrdd Prosiect Canolfan Adnoddau'r Gwasanaethau Ambiwlans a Thân, a diolch i'r Cyng. McGuill am fynychu'r cyfarfodydd ers Tachwedd 2013;**

**(ii) Y Cyng. D MacRae i'r Bwrdd Pensiynau Lleol.**

10 Y PANEL GWEITHREDOL: NEWIDIADAU I'R CYLCH GORCHWYL

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau gymeradwyo cylch gorchwyl y Panel Gweithredol a oedd wedi ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

10.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Panel Gweithredol.**

11 PENODI AELOD ANNIYBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

11.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cynnig bod David Morris yn cael ei ailbenodi i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod am gyfnod pellach o bedair blynedd. Mae Mr Morris wedi gwasanaethau un cyfnod o bedair blynedd ac mae'n gymwys i'w ailbenodi am gyfanswm o un cyfnod pellach hyd at bedair blynedd. Mae Mr Morris wedi dweud ei fod yn barod i gael ei ailbenodi.

11.2 **PENDERFYNWYD ailbenodi David Morris yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a hynny o fis Medi 2014 ymlaen am gyfnod o bedair blynedd.**

12 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2015

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2015.

12.2 Cynigiodd y Cyng. J G Evans fod y cyfarfod yn Rhagfyr 2015 yn cael ei gynnal wythnos yn gynt, ar 14 Rhagfyr, a chytunodd pawb a oedd yno.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r cyfarfodydd fel a ganlyn:**
**cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub**
Dydd Llun 16 Mawrth 2015 – Wrecsam
Dydd Llun 15 Mehefin 2015 – Conwy
Dydd Llun 21 Medi 2015 – Gwynedd
Dydd Llun 14 Rhagfyr 2015 – Sir y Fflint

**cyfarfodydd y Panel Gweithredol i'w cynnal am 10 o'r gloch y bore ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Dydd Llun 2 Chwefror 2015
Dydd Llun 11 Mai 2015
Dydd Llun 20 Gorffennaf 2015
Dydd Llun 26 Hydref 2015

**cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i'w cynnal am 2 o'r gloch y pnawn ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Dydd Llun 26 Ionawr 2015
Dydd Llun 1 Mehefin 2015
Dydd Llun 14 Medi 2015

13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

13.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a luniwyd i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

13.2 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad ac esboniodd mai dyma drydydd adroddiad blynyddol yr Awdurdod, a'i fod yn ymdrin â blwyddyn adrodd 2013-2014; roedd yr adroddiad yn nodi ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau'r staff a phawb sy'n ymweld ag ardal Gogledd Cymru.

13.3 Bu mwy o ymdrech i gasglu'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb o ran y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, ac mae hyn wedi arwain at sefydlu system ôl-ddigwyddiadau i gasglu'r data cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau. Mae'r wybodaeth a gesglir drwy archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi bod yn gymorth i oleuo a dylanwadu ar y gwaith o ddarparu diogelwch cymunedol.

13.4 Nodwyd bod y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn darparu hyfforddiant i swyddogion newydd yr Heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr Heddlu i dynnu sylw at y defnydd o losgi a thanau bwriadol mewn troseddau casineb. Erbyn hyn ystyrir bod hyn yn rhan hanfodol o hyfforddiant ymsefydlu'r heddlu.

13.5 Agwedd allweddol arall yw ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Er mwyn gwella cydlyniant a chysondeb o ran ymgysylltu yn y gogledd, rhoddwyd strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei lle. Yn 2013 gofynnwyd i fwy o grwpiau gwarchodedig roi adborth ar waith y Gwasanaeth, ac mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i rannu'r wybodaeth a gesglir gyda'r holl adrannau er mwyn cydlynu amcanion perfformiad yn y dyfodol.

13.6 Nodwyd bod y data cyflogaeth a gesglir yn ystod ymgyrchoedd recriwtio yn brinnach yn ystod 2013-14 gan fod yr ymgyrchoedd recriwtio wedi eu cynnal y tu allan i'r cyfnod adrodd sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn.

13.7 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau am gydweithio ar draws Cymru, cadarnhaodd y PSTC Simmons fod un unigolyn ymhob un o'r tri GTA yng Nghymru yn monitro ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bob Gwasanaeth hefyd ymgynghori â'i gymunedau lleol ac felly mae rhai agweddau'n unigryw i bob Gwasanaeth. Nodwyd hefyd fod yr holl ddata'n cael eu cadw a'u defnyddio drwy gydol y flwyddyn at wahanol ddibenion. Dywedodd y Cyng. Lewis fod nifer yr wybodaeth yn taflu llawer o oleuni ac y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Awdurdod wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

13.8 **PENDERFYNWYD diolch i'r swyddogion am eu gwaith a nodi cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Blynyddol 2013-2014 a chymeradwyo ei fod yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

14 COFNODION CYFARFODYDD

14.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2014.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

15 RHAGLEN GYFALAF 2014/15

15. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am raglen gyfalaf ystâd yr Awdurdod.

15.2 Nodwyd y canlynol gan yr Aelodau:

- Gorsaf dân ac ambiwlans Wrecsam – mae gwaith galluogi wedi cychwyn ond newidiwyd dyddiad cwblhau'r prosiect i Ionawr 2016. Cynhelir cyfarfodydd misol i fonitro cynnydd a chostau.
- Gorsaf dân ac ambiwlans Nefyn – rhagwelid y bydd yn gwbl weithredol yn Ebrill 2015.
- Gorsaf dân ac ambiwlans Tywyn – mae'r gwaith adeiladu yn yr arfaeth i gychwyn yn Ionawr 2015.
- Gorsaf dân Glannau Dyfrdwy – aildendrwyd y prosiect, ac ailgychwynnnwyd ar y gwaith gyda'r dyddiad cwblhau yn hydref 2015.
- Mae'r gwaith cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a chydraddoldeb ar y Pencadlys, gorsaf dân Llanrwst a'r swyddfa diogelwch cymunedol yn y Rhyl wedi eu cwblhau'n foddhaol.
- Gwaith cynnal a chadw yn yr arfaeth a mân waith – bydd yr holl waith wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2015.

15.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

16 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

16.1 Rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau na fu unrhyw weithredu diwydiannol yng Nghymru ers mis Awst. Roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynigion pensiynau newydd a chaiff yr aelodau wybod beth yw'r canlyniad.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r holl swyddogion, yr undebau ac aelodau'r Awdurdod am eu gwaith a'u cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn. Dymunodd hefyd Nadolig heddychlon a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.